

# Gweithio i Wasanaethau Plant

Pecyn Recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol

Lle gwych i fyw a gweithio

# Cynnwys

Croeso – Cyflwyniad gan Ali Bulman – Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Gweithio i Gyngor Sir Powys

Gwasanaeth Plant – Pwy ydym ni?

- ein gweledigaeth
- ein blaenoriaethau strategol
- strwythur

Athroniaeth a Diwylliant

- Diwylliant o Wrando
- Gwrando ar ein staff
- Partneriaethau
- Cymorth Cynnar, Dechrau'n Dda a'r Tîm o amgylch y Teulu (TAT)

Beth gall Powys ei Gynnig i chi

- Cynefino, dysgu a datblygu
- Proses recriwtio a dethol
- Y buddion o weithio i ni

## Croeso

Diolch yn fawr iawn i chi am ddangos diddordeb mewn gweithio fel Gweithiwr Cymdeithasol i Wasanaethau Plant ym Mhowys. Rydym wedi paratoi'r pecyn gwybodaeth hwn i ddweud mwy wrthy ch chi amdanom ni.

Rydym yn wasanaeth sy'n anelu at weithio gyda theuluoedd i sicrhau fod plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau posib mewn bywyd ac os oes eu hangen, gwasanaethau o ansawdd da, a fydd yn eu galluogi i fyw bywyd diogel a chyflawn. Yn dilyn arolwg diweddar Arolygiaeth Gofal Cymru, mae llawer iawn o welliannau ar fynd a dyma gyfnod cyffrous i fod yn rhan o'r Gwasanaeth Plant ym Mhowys.

Trwy weithio i Gyngor Sir Powys, fe fyddwch yn rhan o'r sefydliad sector cyhoeddus mwyaf yn ddaearyddol yng Nghymru. Yn gyffredinol, mae adrannau'r cyngor yn gweithio'n dda gyda'i gilydd i gyflawni'r newid systematig i ddiwallu anghenion ein cymunedau, yn enwedig y rheini sydd fwyaf agored i niwed. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau fod plant a phobl ifanc ym Mhowys yn ddiogel, yn iach, yn gadarn, yn dysgu ac yn byw bywydau cyflawn. Bydd eu lleisiau'n cael eu clywed, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu gweithredu arnynt.

Trwy weithio i Wasanaethau Plant, fe fyddwch yn rhan o weithlu egniïol a chreadigol, sy'n ymdrechu i sicrhau bod ein teuluoedd yn cael eu cefnogi a bod ein plant yn ddiogel ac yn gallu cyflawni eu potensial llawn. Dyma rôl heriol i'n helpu i gyflawni'r deilliannau gorau posibl i gefnogi plant a theuluoedd ym Mhowys. Byddwch yn ein helpu i gyflawni'r targedau yr ydym wedi'u pennu i'n hunain i wella deilliannau i blant a theuluoedd ym Mhowys. Byddwn yn eich cefnogi yn eich gwaith ac wrth ddatblygu eich gyrfa. Rydym wedi gweithio'n ddiwyd i gyflawni llwythi achosion y gallwch ymdopi â hwy i'ch cefnogi i wneud eich gorau.

Mae gennym gynllun hyfforddiant a datblygiad rhagorol a bydd gennych fynediad at oruchwyliwr a fydd yn eich cefnogi gyda'ch datblygiad proffesiynol parhaus o fewn y rôl a ddewiswyd gennych chi.

Os ydych yn unigolyn gwydn sy'n gallu cymell eich hunan, gydag egni gwirioneddol i lwyddo, dyma gyfle gwyh i ymuno â'n gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar blant a phobl ifanc lle bydd eich sgiliau, gwybodaeth a'ch arbenigedd yn cael eu gwerthfawrogi a'ch datblygiad proffesiynol yn cael ei gefnogi.

Rwy'n edrych ymlaen at dderbyn eich cais.

## Ali Bulman

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

## **Gweithio i Gyngor Sir Powys**

Mae Powys yn sir brydferth sy'n cyflwyno nifer o fuddion:

- Ardal wledig gyda golygfeydd godidog a chymunedau hyfryd o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i Gwm Elan a Llyn Efyrynwy
- Sioeau a gwyliau adnabyddus yn fyd-eang megis Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru, Gŵyl y Dyn Gwyrdd a Gŵyl Lenyddol Y Gelli Gandryll

Mae buddion hefyd i weithio i Gyngor Sir Powys sy'n cynnwys:

## **Buddion i Weithwyr**

- Pecyn Ail-leoli – hyd at £8000 ar gyfer swyddi sy'n anodd eu llenwi
- Cynllun car prydles
- Isafswm o 24 diwrnod o wyliau'r flwyddyn gan gynnwys gwyliau banc
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Patrymau gweithio hyblyg gan gynnwys pythefnos 9 diwrnod
- Cyfleoedd ar gyfer gweithio ystyth
- Talu Ffioedd Cofrestru Gweithwyr Cymdeithasol
- Cyflog cystadleuol

Awdurdod Unedol yw Cyngor Sir Powys sy'n gwasanaethu poblogaeth o tua 132,000 o drigolion dros ardal o tua 2,000 milltir sgwâr yng nghanolbarth Cymru; gan ein gwneud yn un o'r ardaloedd mwyaf prin eu poblogaeth yng Nghymru a Lloegr. O fewn cyfanswm y boblogaeth honno, mae ychydig dan 25,000 o bobl dan 25 mlwydd oed.

I gefnogi teuluoedd led led Powys, mae oddeutu 220 o staff o fewn Gwasanaethau Plant ar draws ystod o dimoedd gan gynnwys Maethu, Mabwysiadu, timoedd Plant lleol (0-18), timoedd Plant sy'n Gadael Gofal, Plant ag Anableddau, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, Tîm y Gwasanaeth Integredig i Deuluoedd, Canolfannau'r Bannau a'r Gamlas, Llinell Uniongyrchol Powys, Diogelu a Sicrhau Ansawdd a'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc. Mae staff yn gweithio o fewn ein prif swyddfeydd yn Y Trallwng, Y Drenewydd, Llandrindod, Aberhonddu ac Ystradgynlais.

Mae oddeutu 22,000 o blant a phobl ifanc dan 18 mlwydd oed yn byw ym Mhowys. Cyfran y disgyblion mewn addysg orfodol sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yw 12%, sy'n cymharu gyda 18.9% yn genedlaethol.

I'r mwyafrif o blant a phobl ifanc, mae Powys yn lle da i dyfu fyny a chael eich magu. Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc wedi'u haddysgu'n dda, yn profi iechyd da ac yn cael cyfleoedd hamdden a gwaith da. Fodd bynnag, mae yna grwpiau o blant a phobl ifanc sy'n profi deilliannau gwaeth, wedi'u cymhlethu mewn rhai achosion gan y sialensiau a ddaw yn sgil byw mewn ardal prin ei phoblogaeth ac arwahanrwydd. Mae yna broffil bod yn agored i niwed sy'n dangos lefel presennol yr angen ym Mhowys o wasanaethau sydd wedi'u targedu i wasanaethau arbenigol.

Mae'r Cyngor wedi'i strwythuro yn 5 cyfarwyddiaeth fel a ganlyn:

- Pobl
- Lle
- Ysgolion
- Adnoddau
- Prif Weithredwr

Mae'r cyfarwyddiaethau hyn yn gyfrifol am gyflwyno ystod eang o wasanaethau i bobl Powys ac yn gweithio gyda'i gilydd er mwyn sicrhau rhianta corfforaethol i bob plentyn ac unigolyn ifanc.

## **Gwasanaethau Plant – pwy ydym ni?**

Rydym yn wasanaeth uchelgeisiol ac rydym yn canolbwyntio ar ddeilliannau positif i blant a phobl ifanc. Rydym yn gwrandao ar lais y plentyn o fewn ein rôl fel rhieni corfforaethol. Ein prif nod yw cadw plant yn ddiogel trwy sicrhau bod plant, pobl ifanc a theuluoedd yn derbyn yr help y maent ei angen mor fuan â phosibl, fel eu bod yn cael eu cefnogi i fyw bywydau diogel, hapus, iachus a llwyddiannus, boed o fewn eu teuluoedd geni neu o fewn gofal parhaol arall.

Rydym yn ymdrechu i sicrhau fod arferion gorau sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer ein gwasanaethau, ac rydym ar daith gwella barhaus fel bod y gefnogaeth a gynigiwn i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd o ansawdd uchel ac yn effeithiol hefyd wrth helpu teuluoedd i wyrddroi cwrs eu bywydau pan fo angen hyn.

Mae Gwasanaethau Plant wedi gweld cynnydd bychan yn nifer y plant a osodir ar y Gofrestr Amddiffyn Plant o fewn y 12 mis diwethaf, sydd wedi sefydlogi ac yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Rydym yn dechrau cyflwyno arwyddion diogelwch o fewn yr adran ac yn parhau i wreiddio Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o fewn ein gwaith.

Rydym eisiau sicrhau fod ein gwasanaethau yn dynodi anghenion plant ac yn trafod yr achosion sydd wrth wraidd problemau, fel y gall teuluoedd gael eu hatgyfnerthu a'u cefnogi i gyflawni newid i'w hunain a'u plant.

Gall gweithio o fewn Gwasanaethau Plant ym Mhowys, fel mewn ardaloedd eraill, fod yn heriol. Fe fyddwch yn wynebu heriau y bydd gweithwyr cymdeithasol yn eu profi unrhyw le yn y DU. Fodd bynnag, byddwch yn eu hwynebu mewn rhan brydferth o'r DU, gyda rhai o'r tai mwyaf fforddiadwy.

Unedau cymharol fechan ond cyfeillgar a chefnogol yw'r timoedd gofal cymdeithasol sy'n gweithio ar sail ardaloedd. Yn gynyddol, rydym yn gweithio'n agosach gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, gyda nifer o dimoedd integredig, ac yn gweithio tuag at gydweithio mwy unedig gyda phartneriaid led led y sir.

## **Gweledigaeth y Gwasanaethau Plant**

“Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau fod plant a phobl ifanc ym Mhowys yn ddiogel, yn iach, yn wydn, yn dysgu ac yn teimlo fel eu bod yn cyflawni. Byddwn yn gwerthfawrogi ac yn gwrandao ar eu lleisiau gan weithredu ar hyn.”

## **Ein blaenoriaethau strategol**

- Cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd
- Rheoli risg yn hyderus ac yn effeithiol wrth gynnig cefnogaeth i deuluoedd lle mae angen diogelu plant a phobl ifanc neu lle y bernir eu bod ar gyrion y system gofal
- Cynnig a chomisiynu cyfuniad hyblyg a fforddiadwy o leoliadau o ansawdd uchel i blant sydd mewn gofal

- Rhoi llwybrau sydd wedi'u cynllunio'n glir i blant a phobl ifanc trwy'r system gofal ac mewn i'r cyfnod o fod yn oedolyn

### **Mae ein tîm yn cynnwys:**

Ers yr Arolwg a gynhaliwyd gan Arolygiaeth Gofal Cymru, mae'r Gwasanaethau Plant wedi bod yn trawsnewid eu gwasanaethau rheng flaen a byddwch yn ymuno gyda gwasanaeth sy'n gwella.

Ymunwch â ni fel Gweithiwr Cymdeithasol Plant sydd Newydd Gymhwys neu fel Gweithiwr Cymdeithasol Plant profiadol a byddwch yn cefnogi teuluoedd ym mhob cwr o Bowys i lunio a gweithredu cynlluniau gofal er mwyn sicrhau y gall plant fyw gartref yn ddiogel, gan ymyrryd lle na allant wneud hyn.

Fe fyddwch yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol o ystod o asiantaethau gan gynnwys iechyd, addysg a gofal cymdeithasol, yr heddlu a gwasanaethau troseddau ieuencid er mwyn gwell profiadau byw i blant.

Fe fyddwch yn trafod llwythi achosion cymhleth ond y gellir ymdopi â hwy tra'n ein helpu i gyflwyno strategaeth a fydd yn rhoi plant a phobl ifanc ar ddechrau, canol a diwedd popeth a wnawn, gyda'r gefnogaeth a'r adnoddau sydd ei angen arnoch i wneud hyn. Mae Teuluoedd yn Gyntaf ym Mhowys yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd sy'n wynebu anawsterau, yn enwedig y rheini ar incymau isel. Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn cyflwyno gwahanol fathau o gefnogaeth i'r teulu cyfan gan ddibynnu ar yr angen, trwy brosiectau, gweithgareddau a hyfforddiant a drefnir gan ystod o wasanaethau'r cyngor, elusennau a sefydliadau partner.

### **Buddion i Weithwyr**

- Pecyn Ail-leoli – hyd at £8000 ar gyfer swyddi sy'n anodd eu llenwi
- Cynllun car prydles
- Isafswm o 24 diwrnod o wyliau'r flwyddyn gan gynnwys gwyliau banc
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Patrymau gweithio hyblyg gan gynnwys pythefnos 9 diwrnod
- Cyfleoedd ar gyfer gweithio ystwyth
- Talu Ffioedd Cofrestru Gweithwyr Cymdeithasol
- Cyflog cystadleuol

Gwasanaeth amlasiantaethol yw Gwasanaeth Anableddau Integredig Powys (GAI) lle mae gweithwyr proffesiynol o'r sectorau iechyd, addysg, gwasanaethau gofal cymdeithasol i blant ac asiantaethau gwirfoddol yn cydweithio i gyflwyno cefnogaeth i blant a phobl ifanc ag anableddau a'u teuluoedd. Mae'r Tîm Plant ag Anableddau yn helpu plant ag anabledd sy'n effeithio ar eu bywydau bob dydd. Mae'r tîm hwn yn rhan o'r Gwasanaeth Anableddau Integredig ehangach.

Mae'r Tîm Cefnogi Teuluoedd Integredig (TCTI) yn gweithio gyda theuluoedd sydd angen help oddi wrth y Gwasanaethau Plant i gadw eu plant yn ddiogel. Bydd y Tîm

Cefnogi Teuluoedd Integredig (TCTI) yn dod â gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr iechyd ynghyd. Bydd y tîm ond yn gweithio gyda theuluoedd sydd eisiau cwrdd â hwy.

Mae Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid (GCI) Cyngor Sir Powys yn goruchwyllo pobl ifanc sydd wedi cael eu hatgyfeirio gan yr heddlu, neu wedi'u dedfrydu gan y llys ieuenctid, gan edrych ar bob sefyllfa a phenderfynu pa ddulliau ymyrraeth sydd eu hangen. Mae ganddynt system fiwro sy'n cefnogi gwaith ymyrraeth ac atal cynnar, ac yn gostwng nifer y gorchmynion llys ffurfiol a gyflwynir i bobl ifanc.

Mae'r Gwasanaeth Maethu a Mabwysiadu yn cyflawni rhwymedigaethau statudol y cyngor i recriwtio, asesu, hyfforddi a chefnogi gofalwyr maeth a mabwysiadwyr ar gyfer ein plant mewn gofal. Maent hefyd yn cynnal gwaith ôl-fabwysiadu gyda phobl ifanc a'u teuluoedd.

Mae gwasanaethau eraill a chefnogaeth ar gael fel rhan o'r Gwasanaeth Plant sy'n cynnwys: swyddogion diogelu ac adolygu annibynnol, swyddogion sicrhau ansawdd a chefnogi'r heddlu, swyddogion cymorth gweinyddol ymroddedig, a rolau o fewn un man cyswllt Llinell Uniongyrchol Powys.

Mae Cymorth Cynnar y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (CYPP) yn un o brif egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Dynodi anghenion yn gynnar a chyflwyno cymorth sydd wedi'i dargedu yw'r ffordd orau o gyflawni deilliannau da i blant ond hefyd i osgoi anawsterau yn cynyddu sy'n arwain at gamau ymyrraeth statudol. Bydd y dull atal a helpu cynnar hwn yn allweddol wrth ddatblygu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon i amddiffyn a diogelu plant.

Mae'r Strategaeth Iechyd a Gofal, Cyd-Strategaeth Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a Chyngor Sir Powys <http://www.biapowys.cymru.nhs.uk/strategaeth-iechyd-a-gofal-ddrafft> yn ceisio galluogi plant a phobl ifanc i 'Ddechrau'n Dda; i bobl 'Fyw yn Dda' ac i bobl hŷn 'Heneiddio'n Dda'. Ym Mhowys, mae nifer y plant mewn gofal yn isel o'i gymharu â Chymru. Fodd bynnag, mae anghenion mwy cymhleth yn dod i'r amlwg ac mae mwy o blant yn cael eu gosod ar y gofrestr amddiffyn plant, gydag esgeulustod yn rheswm mwyaf cyffredin.

Mae angen datblygu cynllun lleol i sicrhau bod digwyddiadau andwyol mewn plentyndod yn cael eu hosgoi a bod ffocws priodol ar y 1,000 diwrnod cyntaf. Mae cyfleoedd i edrych ar sut mae iechyd a gofal cymdeithasol yn gweithio gydag ysgolion er mwyn siarad gyda phlant am eu lles. Bydd ehangu dealltwriaeth staff ynghylch dechrau cynnar a pha wasanaethau sydd ar gael yn hanfodol er mwyn sicrhau fod plant yn cael y lefel gywir o gefnogaeth cyn gynted ag sy'n bosibl.

Mae pawb angen ychydig o gefnogaeth ychwanegol o bryd i'w gilydd a gall cael Tîm o Amgylch y Teulu (TAT) helpu. Mae'r TAT yn ffordd o ddod i wybod pa gefnogaeth ychwanegol sydd ei angen ar deulu o bosibl a sut orau i'w ddarparu. Gall TAT Powys helpu gyda sawl agwedd ar fywyd megis: Y pwysau a'r anawsterau o fod yn rhieni; perthnasoedd anodd o fewn y teulu; mynediad at chwaraeon, cyfleoedd chwarae a gweithgareddau eraill; gwella hunan-barch a hyder eich plentyn; delio gydag adegau o newid ac ymgysylltu gydag ysgol neu hyfforddiant.



## **Athroniaeth a Diwylliant**

O fewn Gwasanaethau Plant, rydym yn cael ein tywys gan gyfres o egwyddorion, gwerthoedd a disgwiliadau. Fel gweithiwr cymdeithasol yng Nghyngor Sir Powys, byddwn yn disgwyl i chi fod yn wybodus a hyderus wrth wneud penderfyniadau a chyflwyno dulliau ymyrraeth. Fe fyddwch yn weithiwr sy'n ffynnu mewn amgylchedd o ddisgwiliadau uchel, sialensiau mawr, a chefnogaeth fawr. Rydym am fod yn bencampwyr o ran arferion a rheoli gwaith cymdeithasol rheng flaen o ansawdd da gan arwain at y deilliannau gorau i blant a phobl ifanc.

## **Diwylliant o Wrando**

Byddwn yn gwrando ar brofiadau plant, pobl ifanc a theuluoedd, gan glywed yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud wrthym ni ac ymateb i hyn o fewn ein gwaith gwella. Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn gosod safbwyntiau, dymuniadau a phrofiadau ein plant a'u teuluoedd wrth galon popeth a wnawn. Rydym yn bendant fod ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth yn sicrhau ein bod yn deall eu hanghenion a pha mor dda mae gwasanaethau yn eu diwallu. Mae adborth parhaus gan ddefnyddwyr gwasanaeth yn wybodaeth hanfodol sy'n ein helpu ni i yrru ymlaen gyda gwelliannau a newidiadau.

## **Gwrando ar ein staff**

Wedi gwrando ar ein staff, rydym yn gweithio'n ddiwyd i ostwng llwythi achosion fel bod pob gweithiwr cymdeithasol yn gallu cynhyrchu gwaith sydd o safon uchel yn gyson a chael cydbwysedd da rhwng gwaith a bywyd.

## **Partneriaethau**

Mae gweithio mewn partneriaeth yn gryfder allweddol o fewn Cyngor Sir Powys. Mae gennym record lwyddiannus sydd wedi'i phrofi o weithio gyda'n prif bartneriaid, ysgolion, yr heddlu, y sector gwirfoddol a chymunedol a gwasanaethau ieuchyd yn strategol ac ar lefel lleol. Mae hyn yn cefnogi prosesau da i rannu gwybodaeth, cydweithio a rhannu dulliau er mwyn diogelu plant.

## **Beth y gall Powys ei gynnig i chi ....**

### **Cynefino, dysgu a datblygiad**

O fewn Cyngor Sir Powys, rydym yn dymuno gweld ein staff yn parhau gyda'u haddysg a'u datblygiad felly rydym yn ymroddedig i sicrhau fod cyfleoedd cynefino da, goruchwyliaeth reolaidd a mynediad at hyfforddiant a datblygiad yn cael eu cyflwyno i bob gweithiwr. Mae'r cymwysterau ffurfiol sydd ar gael i weithwyr nad ydynt mewn swyddi gwaith cymdeithasol yn cynnwys:

- QCF Lefel 2
- QCF Lefel 3
- QCF Lefel 4 Rheolwr Cofrestredig
- QCF Lefel 5
- K101 – 'An Introduction to health and social care' Prifysgol Agored cwrs 60 Credyd
- KZW113 – 'Foundation for Social Work Practice' Prifysgol Agored cwrs 60 Credyd

Mae cwblhau K101 a KZW113 yn golygu Dyfarniad Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol (SSP) cydnabyddedig sydd hefyd yn cyfateb i Flwyddyn Gyntaf Gradd y Brifysgol Agored mewn Gwaith Cymdeithasol.

Gall Gweithwyr Cymdeithasol sydd Newydd Gymhwyso gael mynediad at y Tair Blynedd Gyntaf mewn Ymarfer (Gorfodol) tra cynigir mynediad ar gyrsiau hyfforddi, cyngor a chyfarwyddyd ar ofynion ail-gofrestru i Weithwyr Cymdeithasol sy'n dychwelyd i'r sector, ynghyd â'r portffolio o dystiolaeth sy'n ofynnol a chyfleoedd cysgodi lleoliadau gwaith.

Rydym wedi ymrwmo i ddatblygiad proffesiynol parhaus ein Gweithwyr Cymdeithasol, gan gynnwys ystod o lwybrau ac opsiynau ôl-gymhwyso craidd ynghyd â chyrsgiau corfforaethol a chyrsgiau sy'n benodol i'r rôl ar gyfer staff. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cwrs Cynefino Corfforaethol (E-ddysgu)
- Cwrs Rheolwr Llinell/Goruchwyliwr – i staff sy'n rheoli eraill (wyneb yn wyneb)
- Cwrs Cynefino'r Gwasanaeth (wyneb yn wyneb)
- Iechyd a Diogelwch (E-ddysgu)
- Cydraddoldeb (E-ddysgu)
- VAWDSV (E-ddysgu)
- Cwrs Codi a Chario (E-ddysgu)
- Gwarchod Data (E-ddysgu)
- TG a Diogelwch Data (E-ddysgu)

Rydym hefyd yn cynnig y Rhaglen Ymarfer Profiadol mewn Gwaith Cymdeithasol (EPSW), sy'n arwain at Dystysgrif Raddedig a'r Rhaglen Ymarfer Gwaith Cymdeithasol Profiadol (ESWP), y Rhaglen Uwch Ymarfer mewn Gwaith Cymdeithasol (SPSW), a'r Rhaglen Gwaith Cymdeithasol Ymgynghorol (CSW).

Mae Cyngor Sir Powys yn cynnig Rhaglen Datblygu Rheolwyr Tîm a Rhaglen Datblygu Rheolwyr Canolog ochr yn ochr â Chyrsiau Ymarfer sy'n cynnwys Dyfarniad Aseswyr Arfer, Aseswr Budd Gorau, Cymhwyster cyn yr AMHP a'r AMHP.

Gall staff gael mynediad at Gyrsiau Arweinyddiaeth a Datblygiad Corfforaethol ar Hyfforddi, cwrs Hyfforddiant a Mentora'r ILM5, y Rhaglen Canfod Arweinyddiaeth a'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth.

### **Proses Recriwtio a Dethol**

Os byddwch yn cyflwyno cais i Gyngor Sir Powys, byddwch yn derbyn e-bost yn fuan wedi dyddiad cau'r swydd i ddweud wrthyhych am ganlyniad eich cais. Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael dyddiad cyfweiliad ac unrhyw ofynion cyfweld penodol.

Mae'r paneli cyfweld fel arfer yn cynnwys Cadeirydd, a swyddogion recriwtio diogel.

Ein nod fydd rhoi gwybod i chi am ganlyniad eich cyfweiliad cyn gynted ag sy'n bosibl.

Bydd cynigion penodi bob tro yn amodol ar gyflwyno geiradaon boddhaol a phasio archwiliadau iechyd a DBS yn foddhaol.

